

Bil Cenedligrwydd a Ffiniau

Memorandwm Cydsyniad

Deddfwriaethol

1. Cyflwyniad

Y Bil

1. Cyflwynwyd y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 6 Gorffennaf 2021. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Enw hir y Bil yw:

*"Make provision about nationality, asylum and immigration; to make provision about victims of slavery or human trafficking; to provide a power for Tribunals to charge participants where their behaviour has wasted the Tribunal's resources; and for connected purposes."*¹

2. Roedd gan y Bil fel y'i cyflwynwyd 'gymal dalfan' asesiad oedran (cymal 58 ar y pryd). Cyflwynodd Tom Pursglove AS, Gweinidog y DU, gymalau newydd 48-56 i ddisodli'r cymal dalfan gwreiddiol yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. Cafodd y gwelliannau hynny eu derbyn a'u gwnaed yn rhan o'r Bil ar 4 Tachwedd 2021.

3. Cafodd y Bil ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 9 Rhagfyr 2021. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae fersiwn 9 Rhagfyr o'r Bil ychydig yn wahanol i'r fersiwn ddiwygiedig ar 4 Tachwedd 2021. Cyhoeddwyd cyfres ychwanegol o nodiadau esboniadol i'r Bil ar 9 Rhagfyr.² Yn y Nodiadau Esboniadol, nodir mai nodau'r Bil yw fel a ganlyn:

"- increase the fairness of the system to better protect and support those in

¹ Senedd y DU '[Nationality and Borders Bill](#)', diweddarwyd ym mis Chwefror 2022



need of asylum;

- deter illegal entry into the United Kingdom, thereby breaking the business model of people smuggling networks and protecting the lives of those they endanger; and

- remove more easily those with no right to be in the UK."³

Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

4. O dan Reol Sefydlog 29, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru osod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas ag unrhyw Fil sy'n cael ei ystyried yn Senedd y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru:

(i) at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (ac eithrio darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol, dros dro, atodol neu ddarpariaethau arbed sy'n ymwneud â materion nad ydynt o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd); neu

(ii) sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd."⁴

5. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil gerbron y Senedd ar 6 Rhagfyr 2021.⁵

Amserlen ar gyfer gwaith craffu gan y Senedd

6. Ar 7 Rhagfyr, gwahoddodd Pwyllgor Busnes y Senedd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru a chyflwyno adroddiad arno. Ar 14 Rhagfyr, cytunodd i wahodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i wneud hynny hefyd.⁶

³ Llywodraeth y DU, '**Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes**', Rhagfyr 2021, tudalen 4

⁴ Senedd Cymru, '**Rheolau Sefydlog Senedd Cymru**', Rhagfyr 2021, tudalen 181

⁵ Llywodraeth Cymru, '**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**', Rhagfyr 2021 Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyn cyhoeddi fersiwn 9 Rhagfyr o'r Bil, felly mae'n adlewyrchu fersiwn 4 Tachwedd o'r Bil.

⁶ Senedd Cymru, '**Y Pwyllgor Busnes: Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**', Ionawr 2022

7. Yn wreiddiol, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 10 Chwefror 2022. Gwnaethom ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes ar 6 Ionawr i ofyn am estyniad i gyflwyno'r adroddiad erbyn 17 Chwefror fel y gallem ofyn am ragor o dystiolaeth i lywio ein casgliadau a'n hargymhellion.⁷ Ar 11 Ionawr, derbyniodd y Pwyllgor Busnes y cais hwnnw. Fodd bynnag, ailystyriodd ei benderfyniad ar 25 Ionawr. Wedi hynny, newidiodd y terfyn amser i'r holl bwyllgorau ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a chyflwyno adroddiad arno i fore 15 Chwefror.⁸

Ein dull ni

8. Gwnaethom drafod ein dull o graffu ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ystod ein cyfarfod ar 13 Ionawr. Cytunwyd y byddem yn casglu dystiolaeth ysgrifenedig ar y cyd â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar 18 Ionawr, i ofyn am eu barn am ystod o faterion sy'n berthnasol i'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gwnaethom ysgrifennu at:

- Jane Hutt AS, Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol⁹;
- sefydliadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol plant, hawliau plant a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ffoaduriaid a cheiswyr lloches.¹⁰ Derbyniwyd tri ar ddeg o ymatebion fel y nodir yn atodiad A o'r adroddiad hwn.

9. Gwnaethom drafod barn y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a rhanddeiliaid yn ystod ein cyfarfod ar 10 Chwefror 2022.

10. Rydym wedi cyfyngu ar ein sylwadau ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r darpariaethau yn y Bil ynghylch a ydym yn credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar y Bil a'r goblygiadau i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Hefyd, cyfeiriwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Rydym yn disgwyl y bydd materion sy'n ymwneud â'r goblygiadau i'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael sylw ar wahân yn adroddiad y Pwyllgor hwnnw.

⁷ Senedd Cymru, Llythyr ar y cyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes, 6 Ionawr 2022

⁸ Senedd Cymru, **Y Pwyllgor Busnes: Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried: Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**, Ionawr 2022

⁹ Senedd Cymru, Llythyr ar y cyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, 18 Ionawr 2022

¹⁰ Senedd Cymru, Llythyr ar y cyd gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a Chadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol at rhanddeiliaid, 18 Ionawr 2022

11. Mae swyddogion sy'n cefnogi'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi gweithio ar y cyd i gydgysylltu casglu tystiolaeth a chymorth i'r Aelodau.

2. Y darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

13. Mae'r mwyafrif helaeth o'r Bil hwn, sy'n ymdrin â mewnfudo a materion cysylltiedig yn bennaf, y tu allan i gwmpas pwerau'r Senedd. Isod, rydym yn trafod y cymalau y mae Llywodraeth Cymru yn credu eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, felly mae arnynt angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd.

14. Mae'r holl gyfeiriadau at gymalau penodol yn yr adran hon yn ymwneud â fersiwn 9 Rhagfyr o'r Bil oni nodir yn wahanol. Mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn ymwneud â fersiwn 4 Tachwedd o'r Bil. Byddwn yn nodi'r pwyntiau perthnasol yn y testun lle y mae anghysondeb rhwng y cymal y mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio ato, a'r cymal y mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn cyfeirio ato.

Rhan 4 - Aseidiadau oedran

15. Mae Rhan 4 o'r Bil (cymalau 48-56) yn ymwneud ag aseidiadau oedran. Cynhelir aseidiadau oedran yn bennaf er mwyn penderfynu a all rhywun gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau eraill i blant. Mae Rhan 4 o'r Bil yn gymwys mewn perthynas ag unigolion sy'n ceisio lloches sy'n cyrraedd y DU ar eu pen eu hunain heb ddogfennaeth i ddangos tystiolaeth o'u hoedran.

16. Ar hyn o bryd, os oes amheuaeth ynghylch oedran plentyn, cynhelir asesiad gan adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol lle y mae'r plentyn wedi dod i'r amlwg. Gwneir y penderfyniad ynghylch oedran ar lefel ddatganoledig mewn proses y mae deddfwriaeth a chanllawiau statudol yn sail iddi.¹¹

Crynodeb o gymalau

Crynodeb o'r cymalau yn Rhan 4 o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn credu eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

¹¹ Gweler pecyn cymorth asesu oedran Llywodraeth Cymru i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, sy'n adlewyrchu deddfwriaeth Cymru megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Llywodraeth Cymru, '[Plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches: pecyn cymorth asesu oedran](#)', Mehefin 2021

Cymal	Darpariaeth
Cymal 48 - Dehongliad o'r Rhan ac ati	Yn darparu ar gyfer dehongli Rhan 4. Mae'n diffinio termau megis "unigolyn y ceir amheuaeth ynghylch ei oedran", y bydd cymalau 48-56 yn gymwys iddynt.
Cymal 49 - Unigolion sy'n destun rheolaethau mewnfudo: atgyfeirio neu asesu ganawdurdod lleol ac ati [gan gynnwys y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol]	<p>Yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal asesiadau oedran llawn ar unigolion y ceir anghydfod ynghylch eu hoedran (fel y'u diffinnir yng nghymal 48), ar ôl atgyfeiriad gan awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban neu Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon.</p> <p>Mae'r Bil yn nodi y bydd asesiadau oedran a gynhelir ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol yn cael eu cynnal gan berson dynodedig, a ddiffinnir fel un o swyddogion yr Ysgrifennydd Gwladol sydd wedi'i ddynodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnal asesiadau oedran.¹² Mae Nodiadau Esboniadol y Bil yn esbonio mai'r 'person dynodedig' hwn fydd y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol, a fydd, i raddau helaeth, yn cynnwys tîm o weithwyr cymdeithasol cymwysedig pwrpasol ar gyfer asesiadau oedran.¹³</p>
Cymal 51 - Defnyddio dulliau gwyddonol mewn asesiadau oedran	Yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n pennu defnyddio dulliau gwyddonol o asesu oedran, ac i benderfynwr allu dod i gasgliad hygrededd negyddol yn sgil gwrthodiad i gydymffurfio â chais i gael asesiad oedran gwyddonol, heb reswm da.
Cymal 52 - Rheoliadau yn ymwneud ag asesiadau oedran	Yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch y ffordd y cynhelir asesiadau oedran o dan gymalau 49 a 50.
Cymal 53 - Apeliadau yn ymwneud ag asesiadau oedran	Yn darparu ar gyfer hawl i apelio at y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar gyfer unigolyn y ceir anghydfod ynghylch ei oedran y pennwyd, yn dilyn asesiad oedran o dan Ran 4, fod ei oedran yn wahanol i'r hyn roedd yn honni.
Cymal 54 - Apeliadau yn ymwneud ag asesiadau oedran ategol	Yn nodi materion gweithdrefnol mewn perthynas â darparu hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau asesu oedran pobl sy'n destun rheolaethau mewnfudo.

¹² Senedd y DU, '[Nationality and Borders Bill](#)', diweddarwyd ym mis Chwefror 2022, tudalennau 54-55

¹³ Llywodraeth y DU, '[Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes](#)', Rhagfyr 2021, tudalen 59

Cymal 55 - Gwybodaeth newydd yn dilyn asesiad oedran neu apêl	Yn nodi'r broses ar gyfer asesu tystiolaeth newydd sy'n dod i'r amlwg ar ôl cynnal asesiad oedran, gan gynnwys achosion pan fo'r unigolyn wedi bod drwy'r broses apelio.
--	--

Safbwynt Llywodraeth y DU

A oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd

17. Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau yn y Bil.

"Almost all of the provisions in the Bill deal with matters that are reserved to the UK Parliament [...]"

None of the provisions in the Bill involve the UK Parliament legislating for a matter that is within the legislative competence of a devolved legislature, and so the consent of devolved legislatures is not required under the Sewel Convention."¹⁴

18. Mae Atodiad B o'r Nodiadau Esboniadol yn nodi asesiad a oes angen cydsyniad deddfwrfeydd y DU fesul cymal ar gyfer y Bil.¹⁵

Materion polisi

19. Mewn cyhoeddiad, dywedodd yr Ysgrifennydd Cartref Priti Patel AS y bydd y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau yn rhoi terfyn ar lawer o'r camddefnyddiau amlwg sydd wedi arwain at gamddefnyddio'r system mewnfudo a lloches gan bobl heb hawl i fod yn ein gwlad. Aeth ymlaen i ddadlau bod dynion mewn oed, yn ffugio bod yn blant, yn cael mynediad at wasanaethau plant ac ysgolion drwy ddichell a thwyll; gan beryglu plant ac oedolion ifanc sydd mewn ysgolion a gofal.¹⁶

20. Mae Nodiadau Esboniadol Llywodraeth y DU yn nodi'r wybodaeth gefndir a ganlyn:

"In recent years, the UK has typically received an average of 3,000 asylum claims from unaccompanied children. These claims make up approximately 9-10% of the overall number of asylum seekers that arrive in the UK each

¹⁴ Llywodraeth y DU, '**Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes**', Rhagfyr 2021, tudalennau 18-19

¹⁵ Llywodraeth y DU, '**Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes**', Rhagfyr 2021, tudalen 99

¹⁶ Llywodraeth y DU, '**Home Office to introduce scientific methods for assessing the age of asylum seekers**', Ionawr 2022

year. The vast majority of UASC [Unaccompanied Asylum Seeking Children] claim to be aged 16-17. In the year ending June 2021, 74% of UASC fell into this age range."¹⁷

21. Mae'r nodiadau'n nodi'r canlynol:

*"This Bill seeks to strengthen the framework for determining the age of people seeking asylum. This includes establishing a decision-making function in the Home Office to allow the Secretary of State to conduct age assessments. The measures also create a right of appeal against age assessment decisions and look to establish a framework for the use of scientific technology in decision about age."*¹⁸

22. Mae'n mynd ymlaen i ddweud bod y Llywodraeth o'r farn ei bod yn angenrheidiol ac yn briodol darparu ystod ehangach o dystiolaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fel sail i'w penderfyniadau. Mae'n ychwanegu bod y llysoedd wedi cydnabod y gall hyd yn oed asesiad oedran cyfannol cynhwysfawr a thrylwyr fod â lwfans gwallau sylweddol, a bod defnyddio dulliau gwyddonol yn gyfle i wneud penderfyniadau mwy ar sail gwybodaeth ar oedran unigolyn y ceir anghydfod ynghylch ei oedran.¹⁹

Safbwynt Llywodraeth Cymru

A oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd

23. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd am y rheswm a ganlyn, ym marn Llywodraeth Cymru:

*"Mae cymalau 48-55 (ac eithrio cymal 50), yn ymwneud ag asesiad oedran plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches, a chymal 79 (y pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol), yn effeithio ar faes nas cadwyd yn ôl o ofal cymdeithasol, felly mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd."*²⁰

24. Yn ei llythyr ar 3 Chwefror 2022, ysgrifennodd Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol, y canlynol:

¹⁷ Llywodraeth y DU, '**Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes**', Rhagfyr 2021, tudalen 58

¹⁸ Llywodraeth y DU, '**Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes**', Rhagfyr 2021, tudalen 8

¹⁹ Llywodraeth y DU, '**Nationality and Borders Bill: Explanatory Notes**', Rhagfyr 2021, tudalen 60

²⁰ Llywodraeth Cymru, '**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**', Rhagfyr 2021, tudalen 1

"The UK Government has provided no satisfactory assurances and no amendments have been tabled to address the concerns raised by the Welsh Government. The UK Government has maintained its position that the entirety of the Nationality and Borders Bill relates to reserved areas of policy, despite the Bill making provision concerning local authority decisions as to whether and how to exercise functions under "relevant children's legislation".

*These provisions would apply to Welsh local authority decisions about whether and how to exercise their functions under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014."*²¹

Materion polisi

25. Mae paragraffau 13 i 16 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi safbwynt polisi Llywodraeth Cymru.

"(13) [...] yn ein hymateb i 'Gynllun Newydd ar gyfer Mewnfudo' Llywodraeth y DU, mae ein safbwynt polisi'n deillio o gydymffurfiaeth â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i weithredu er budd gorau plant. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'r gofynion sydd ar awdurdodau lleol wrth bennu a oes gan blant anghenion gofal a chymorth y mae angen eu diwallu.

*(14) Mae'r Senedd eisoes wedi deddfu'n unol â hyn er mwyn sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu diwallu, ac nid ydym yn cytuno y dylai Llywodraeth y DU allu tansilio cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd drwy ei gwneud yn ofynnol i atgyfeirio plant y ceir amheuaeth ynghylch eu hoedran at bartion eraill i wneud penderfyniadau yn eu cylch, neu i orfodi'r defnydd o dystiolaeth neu ddulliau asesu oedran nad ystyrir yn arfer gorau yng Nghymru."*²²

²¹ Llywodraeth Cymru, '**Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**', 3 Chwefror 2022

²² Llywodraeth Cymru, '**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**', Rhagfyr 2021, tudalen 4

26. Mae paragraffau 16 i 38 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol²³ a llythyr y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol²⁴ yn nodi meysydd sy'n peri pryder penodol i Lywodraeth Cymru:

- Mae'r Bil yn nodi y caiff awdurdod lleol atgyfeirio unigolyn y ceir anghydfod ynghylch ei oedran at 'berson dynodedig' ar gyfer asesiad oedran (cymal 49). Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu y bydd **Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol Cenedlaethol** yn cyflawni swyddogaeth y 'person dynodedig'. Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau mai "Prin yw'r wybodaeth a ddarperir am gyfansoddiad" y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol (NAAB). Mae'n mynd ymlaen i ddatgan y "Byddai'r NAAB yn lleihau rôl arweiniol, awdurdodol gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru yn y swyddogaeth hon".
- Mae'r Bil yn cyflwyno'r defnydd o **dulliau gwyddonol mewn asesiadau oedran** a allai gynnwys archwilio neu fesur rhannau o'r corff gan ddefnyddio technoleg ddelweddu (megis pelydr x) a chymryd samplau er mwyn archwilio DNA (cymal 51); Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod ganddi safbwynt polisi Cymru ar asesu oedran "nad yw'n argymhell nac yn cefnogi'r defnydd o archwiliadau meddygol fel ffordd o bennu oedran ac sy'n ystyried dulliau o'r fath yn foesol anghywir. Bydd y defnydd o 'dulliau gwyddonol' o bosibl yn peri anghytundeb sylfaenol a pharhaol rhwng safbwyntiau awdurdodau lleol Cymru a'r NAAB." Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai "gweithwyr cymdeithasol lleol sydd wedi sefydlu cysylltiad â phlentyn a/neu berson ifanc sydd yn y sefyllfa orau i asesu oedran. Mae'r asesiadau hyn yn seiliedig ar asesiadau sy'n cydymffurfio â dyfarniad Merton (R(B) v London Borough of Merton, 2003) lle mae gweithwyr cymdeithasol yn debygol o fod wedi treulio cryn amser yn deall gallu'r person ifanc sy'n cael ei asesu."
- Mae'r Bil yn **rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth ynghylch asesiadau oedran** , gan gynnwys y prosesau ar gyfer asesu oedran y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu dilyn (cymal 52). Mae Llywodraeth Cymru yn nodi nad yw'n "glir a fydd disgwyl i gyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) Cymru gynnal yr asesiad "dulliau gwyddonol" ynteu a fydd hyn yn cael ei roi ar gontract allanol i ddarparwyr iechyd preifat." Pe bai'r GIG yn gyfrifol, "byddai hyn yn creu llwyth gwaith

²³ Llywodraeth Cymru, '**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cenedligrwydd a Ffiniau**', Rhagfyr 2021

²⁴ Llywodraeth Cymru, '**Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**', 3 Chwefror 2022

ychwanegol i fyrddau iechyd sydd eisoes dan bwysau sylweddol". Rhoddodd Llywodraeth Cymru ystadegau y mae'n dadlau eu bod yn dangos y pennir bod llai o unigolion dan 18 oed pan gynhelir asesiadau oedran gan y Swyddfa Gartref. Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld "gwrthdaro rhwng safbwyntiau swyddogion gwasanaethau cymdeithasol a fydd yn ystyried bod y person yn blentyn ag anghenion gofal a chymorth a swyddogion y Swyddfa Gartref a fydd yn ystyried bod y person yn oedolyn."

- Mae **penderfyniad gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf ar apêl yn rhwymol ar Awdurdod Lleol**, hyd yn oed os yw'r Awdurdod Lleol wedi arfer swyddogaethau o dan ddeddfwriaeth plant Cymru (megis Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014) (gweler cymalau 53 a 54). Mae Llywodraeth Cymru yn dadlau y "Gallai hyn arwain at wrthdroi asesiadau cyfannol a manwl a gynhaliwyd yn unol â Phecyn Cymorth Asesu Oedran Llywodraeth Cymru, ar sail penderfyniadau a wnaed ar sail tystiolaeth a gasglwyd gan ddefnyddio prosesau sy'n mynd yn groes i ddull y Pecyn Cymorth, megis "dulliau gwyddonol" sy'n cael eu hamau'n fawr ac sydd â lwfans gwallau mawr."
- Yr effaith a ddisgwyllir gan Lywodraeth Cymru "yn sgil asesiadau wedi'u canoli yw y gall plant gael eu lleoli mewn llety sydd i fod i oedolion yn unig, gan achosi **pryderon o ran diogelwch**, perygl y bydd achosion o gamfanteisio ar blant, ac achosion posibl o ddirywiad pan fo plant yn dianc rhag sefyllfaoedd peryglus."
- Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gall effeithiau o ran **cydlyniant cymunedol** godi oherwydd bod "pobl ifanc yn cael eu gadael mewn llety a ddarperir gan awdurdod lleol" oherwydd na fydd y Swyddfa Gartref yn cydnabod oedran y plentyn "ac felly na fydd yn derbyn y math o gais am loches a gyflwynir [...] mae plant yn debygol o fod yn fwyfwy ynysig a gallai hynny arwain at ddirywiad o ran iechyd meddwl a chanlyniadau eraill a fydd yn effeithio ar gydlyniant cymunedol dros amser."

27. Mae llythyr y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn nodi bod "Llywodraeth Cymru wedi codi pryderon dro ar ôl tro am effaith y Bil hwn ar Gymru ac wedi gofyn am fanylion y cymalau sy'n ymwneud ag asesu oedran o fis Mai 2021 ymlaen, heb lwyddiant."²⁵

Barn rhanddeiliaid

²⁵ Llywodraeth Cymru, '**Llythyr gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Chadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**', 3 Chwefror 2022

Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol

- 28.** Y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol yw'r corff y mae Llywodraeth y DU yn cyfeirio ato a fydd yn cynnal asesiadau oedran llawn ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol ar unigolion y ceir anghydfod ynghylch eu hoedran. Gweler '**Crynodeb o gymalau**' ar dudalen 5 o'r adroddiad hwn i gael rhagor o wybodaeth.
- 29.** Mynegodd rhanddeiliaid bryderon nad yw'r darpariaethau yn y Bil yn cynnig llawer o fanylion am rôl y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol, megis ei aelodaeth, annibyniaeth ac i bwy y byddai'n atebol (yn benodol, a fyddai'n atebol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd).
- 30.** Darparodd rhanddeiliaid ddehongliadau gwahanol o'r Bwrdd. Roedd rhai'n rhagweld y byddai'n gorff Lloegr yn unig, ac roedd eraill yn pryderu y gallai ddiystyru penderfyniadau awdurdodau lleol Cymru.
- 31.** Yn eu cyflwyniad ar y cyd, cododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan bryderon ynghylch gallu'r Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol i gynnal asesiad oedran os oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol reswm dros amau asesiad oedran a gynhaliodd awdurdod lleol ar unigolyn y ceir anghydfod ynghylch ei oedran neu os oes ganddo reswm dros amau penderfyniad awdurdod lleol i beidio â chynnal asesiad oedran. Roeddent yn dadlau bod hwn yn bŵer hynod eang ac yn un a all danseilio rôl hollbwysig gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol.²⁶
- 32.** Cododd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol bryderon y bydd y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol arfaethedig yn gallu diystyru asesiad oedran awdurdod lleol a chynnal ei asesiad oedran ei hun ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol neu berson dynodedig ar ei ran, yn hytrach na chefnogi neu gynghori awdurdodau lleol yn unig. Dywedodd y canlynol:
- "We share the concerns of the British Association of Social Workers (BASW) that age assessments could be used as a political tool by the UK Government to order age assessments on persons who have attracted media attention."²⁷*
- 33.** Cododd Iechyd Cyhoeddus Cymru bryderon, os yw'r Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol yn gorff Lloegr yn unig, y gallai arwain at ddulliau gwahanol o ystyried ceisiadau lloches yng

²⁶ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 13 - CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan**

²⁷ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 05 - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru**

Nghymru a Lloegr. Mae'n yn mynd ymlaen i ofyn a fyddai'n ofynnol i Gymru gymeradwyo penderfyniad y Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol os bydd plentyn yn cyrraedd Cymru fel rhan o'r cynllun trosglwyddo cenedlaethol.²⁸

34. Daeth nifer o randdeiliaid i'r casgliad nad yw'r darpariaethau yn y Bil yn rhoi cyfrif am y meysydd sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, nac yn eu hystyried. Maent yn cytuno bod angen trafodaethau i gael dealltwriaeth gliriach o sut y byddai'r Bwrdd Asesu Oedran Cenedlaethol yn gweithio'n ymarferol.²⁹

Yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud rheoliadau

35. Mynegodd y rhan fwyaf o randdeiliaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, Gwasanaethau Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol Cymru, a Chonffederasiwn y GIG bryderon ynghylch effaith y Bil ar gymhwysedd Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid i weithredu'r polisiau sy'n cefnogi gweledigaeth Cenedl Noddfa. Dywedodd Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuencid (EYST) Cymru y canlynol:

"We also welcome the Welsh Government's commitment to being an Antiracist Wales by 2030 as set out by their Race Equality Action Plan. Sadly this bill and its actions will undermine all of this good work and hope."³⁰

36. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid ei bod yn aneglur pa bwerau fyddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n cynnwys meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru, gan gynnwys iechyd, llywodraeth leol a gwasanaethau cymdeithasol. Pwysleisiwyd mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gymorth a gofal i blant ac oedolion sy'n ceisio noddfa yng Nghymru, gydag asesiad oedran yn cael ei gynnal gan y gwasanaethau cymdeithasol ar hyn o bryd yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014. Ysgrifennodd Plant yng Nghymru (gyda Grŵp Monitro CCUHP ac ar ei ran) y canlynol:

"The application of the age assessment process in Wales is undertaken by children's social services, informed by case law and underpinned by existing duties prescribed by Welsh legislation, most notably the Social Services and

²⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 06 - Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

²⁹ Gweler: [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 12 - Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru](#), [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 06 - Iechyd Cyhoeddus Cymru](#); [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 10 - Conffederasiwn GIG Cymru](#); [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 04 - Rhwydwaith Maethu Cymru](#); a [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 13 - CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan](#)

³⁰ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 09 - EYST Cymru](#)

Well-being (Wales) Act 2014. All persons determined to be children are granted looked after status, and should have access to a range of care and support services to aid recovery and the statutory entitlements that this status offers."³¹

37. Nododd y cyflwyniad ar y cyd gan CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, er nad yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 yn nodi dyletswydd i asesu oedran, ei bod yn gosod cyfrifoldeb clir a dyletswyddau cyfreithiol i asesu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau plant a chymorth i ddiwallu eu hanghenion a diogelu a hyrwyddo llesiant y plentyn:

"Given the devolved nature of health and social care in Wales our view is that the Bill confers power on the Secretary of State to make regulations imposing functions on devolved Welsh authorities which could potentially undermine the requirements placed on Welsh local authorities set out in the SSWBA, thereby treating asylum seeking children differently to other children in Wales. The full devolvement of social services functions to Wales does not appear to have been considered, with no specific proposals about the representation of Wales or the impact of decision-making on Welsh devolved services."³²

38. Cododd ragor o bryderon y gallai'r Bil leihau rôl gweithwyr cymdeithasol sydd â'r arbenigedd, y profiad, a'r sgil sy'n ofynnol i gynnal asesiadau, gan gynnwys asesiadau byrrach. Roedd hyn yn ofn arbennig yn sgil achos llys diweddar (MA a HT) yn erbyn Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref pan recriwtiodd y Swyddfa Gartref ei gweithwyr cymdeithasol ei hun i gynnal asesiadau.³³

39. Pwysleisiodd Confederasiwn GIG Cymru yr angen am sgysiau rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i bennu lle y mae'r Bil hwn yn croesi i feysydd cymhwysedd datganoledig, y disgwyliadau a osodir ar weision sifil Cymru, a'r rhyngwyneb â deddfwriaeth bresennol

³¹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 11 - Grŵp Monitro CCUHP Cymru](#)

³² [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 13 - CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan](#)

³³ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 13 - CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan](#)

Llywodraeth Cymru, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.³⁴

Defnyddio dulliau gwyddonol i gadarnhau oedran; a chynigion i ddiwygio trefniadau apelio

40. Mae cymal 51 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n pennu defnyddio dulliau gwyddonol o asesu oedran, ac i benderfynwr allu dod i gasgliad hygrededd negyddol yn sgil gwrthodiad i gydymffurfio â chais i gael asesiad oedran gwyddonol heb reswm da. Mae cymal 52 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau ynghylch y ffordd y cynhelir asesiadau oedran.

41. Roedd gan randdeiliaid a oedd yn cynrychioli gweithwyr iechyd proffesiynol bryderon tebyg ynghylch defnyddio dulliau gwyddonol. Dadleuodd Conffederasiwn y GIG, nes bod tystiolaeth gymhellol i ategu dibynadwyedd yr asesiad, ei fod yn rhy anfanwl i fynediad at wasanaethau hanfodol fod yn seiliedig ar ei ganlyniad.³⁵ Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datgan ei fod wedi cynghori o'r blaen nad oes tystiolaeth gadarn a gwyddonol y byddai partneriaid yng Nghymru yn ei hategu'n sail i ddulliau megis archwiliad deintyddol, dwysedd esgryn a dulliau eraill a awgrymir.³⁶

42. Cododd rhai faterion ynghylch defnyddio ymbelydredd ìoneiddio. Nododd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod defnyddio asesiad radiolegol yn hynod anfanwl ac y gall roi amcangyfrif o fewn dwy flwydd yn unig i'r naill gyfeiriad neu'r llall; felly mae'n amhriodol ei ddefnyddio at y diben hwn.³⁷

43. Er iddi godi pryderon difrifol gyda Llywodraeth y DU ynghylch y posibilrwydd yn y Bil ar gyfer defnyddio ymbelydredd ìoneiddio, mae Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru yn nodi ei fod yn opsiwn o hyd ar gyfer dilysu oedran ceiswyr lloches:

"The use of ionising radiation for age assessment involves direct harms without any medical benefit to the individual and, as such, we do not believe it would be appropriate to expect doctors to participate in such a practice."³⁸

³⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 10 - Conffederasiwn GIG Cymru](#), paragraff 8

³⁵ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 10 - Conffederasiwn GIG Cymru](#), paragraff 6

³⁶ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 06 - Iechyd Cyhoeddus Cymru](#)

³⁷ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 08 - Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant](#)

³⁸ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 02 - Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru](#)

44. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at y trawma y gallai pobl y ceir anghydfod ynghylch eu hoedran ei wynebu o ganlyniad i fabwysiadu dulliau gwyddonol. Dywedodd EYST fod mesur rhannau o'r corff yn hiliol, yn anwybodus ac yn unffurf ac ychwanegodd na fyddai dulliau gwyddonol yn ystyried materion corfforol fel oedi twf neu anabledd.³⁹ Roedd gan y Rhwydwaith Maethu a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol bryderon tebyg:

"Scientific methods' can be very invasive and traumatic for the individual. This is especially true for those who have suffered torture, inhuman and degrading treatment before arriving in Wales."⁴⁰

45. Yn eu cyflwyniad ar y cyd, nododd CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan, yn ogystal â Chonffederasiwn y GIG, fod Pecyn Cymorth Asesu Oedran eisoes ar waith yng Nghymru.⁴¹ Nid yw'r un o'r sefydliadau a gynrychiolir yn y cyflwyniadau hynny yn argymhell nac yn cefnogi defnyddio archwiliadau meddygol i bennu oedran.

46. Mynegodd Plant yng Nghymru (gyda Grŵp Monitro CCUHP ac ar ei ran) bryderon y byddai unrhyw wrthodiad i gydsynio i lawdriniaethau meddygol a allai fod yn fewnwithiol yn cael ei ystyried wrth bennu hygrededd unigolyn y ceir anghydfod ynghylch ei oedran. Yn eu barn hwy, gallai hyn orfodi rhai plant i gael asesiadau rhag ofn y byddai gwrthod yn cael effaith negyddol ar eu cais am loches.⁴²

Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

47. Mae Erthygl 22 o CCUHP yn nodi, os yw plentyn yn ffoadur neu'n ceisio lloches, fod yn rhaid i lywodraethau sicrhau bod ganddo'r un hawliau ag unrhyw blentyn arall.⁴³

48. Mynegodd nifer o randdeiliaid bryderon bod y Bil yn bygwth egwyddor y dull 'plentyn yn gyntaf, ymfudwr yn ail' y maent yn dweud ei fod yn sail i'r cymorth a roddir i blant sy'n ceisio

³⁹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 09 - EYST Cymru](#)

⁴⁰ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 05 - Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol Cymru](#)

⁴¹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 13 - CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan](#)

a [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 10 - Conffederasiwn GIG Cymru](#), paragraff 6

⁴² [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 11 - Grŵp Monitro CCUHP Cymru](#)

⁴³ UNICEF, '[The United Nations Convention on the Rights of the Child](#)', tudalen 7

lloches yng Nghymru.⁴⁴ Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) wrth arfer ei swyddogaethau. Dywedodd llawer o randdeiliaid y bydd y Bil yn tansilio CCUHP.

49. Dywedodd y Comisiynydd Plant y canlynol:

"Fel mae'r Bil yn sefyll ar hyn o bryd, rwy'n credu y bydd yn niweidiol i hawliau sylfaenol plant a gyflwynwyd yn CCUHP."

Mae'r cyflwyniad yn mynd ymlaen i ddatgan y "gallai'r Bil hwn... danseilio dyletswydd Gweinidogion Cymru i gynnal hawliau plant o dan Fesur Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011".⁴⁵ Cyfeiriodd lechyd Cyhoeddus Cymru at gasgliadau'r Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn a gadarnhaodd y canlynol yn 2017:

*"States should refrain from using medical methods based on, inter alia, bone and dental exam analysis, which may be inaccurate, with wide margins of error, and can also be traumatic and lead to unnecessary legal processes" (Age Assessment Toolkit, 2021)."*⁴⁶

50. Cynigiodd llawer o randdeiliaid enghreifftiau lle roeddent yn teimlo bod y cynigion a nodir yn y Bil yn tansilio CCUHP. Dadleuodd Plant yng Nghymru (gyda Grŵp Monitro CCUHP Cymru ac ar ei ran) fod Erthygl 1 o CCUHP yn sicrhau bod gan bob plentyn dan 18 oed yr hawl i'r holl hawliau fel y'u rhagnodwyd, ni waeth beth yw ei nodweddion a'i amgylchiadau. I blant ar eu pen eu hunain, mae oedran yn benderfynydd allweddol ar gyfer gallu cael mynediad at gymorth, amddiffyniad ac ymyriadau i'w helpu i wella yn sgil trawma yn unol ag Erthygl 39.⁴⁷

51. Mewn cyflwyniad ar y cyd, dywedodd CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan fod y Bil yn tansilio'r ddyletswydd i weithredu yn unol ag egwyddor budd pennaf y plentyn (Erthygl 3). Dywed fel a ganlyn:

⁴⁴ Gweler: **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 06 - Iechyd Cyhoeddus Cymru; Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 07 - Comisiynydd Plant Cymru**, tudalen 6; **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 04 - Rhwydwaith Maethu Cymru**

⁴⁵ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 07 - Comisiynydd Plant Cymru**, tudalen 4

⁴⁶ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 06 - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

⁴⁷ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 11 - Grŵp Monitro CCUHP Cymru**

*"the best interests of the child principle should be at the heart of any decision and, therefore, this must be considered in any age assessment system. The principal of Best Interests has also been incorporated into Welsh Government's Age Assessment Toolkit. An incorrect determination of the child as an adult will lead to young people being deprived of the support, care, and safeguarding procedures they are entitled to as children. Importantly, the significant margin of error in so-called scientific age assessment methods will increase the likelihood of children being detained in Immigration Removal Centres."*⁴⁸

52. Mae EYST yn tynnu sylw at Erthygl 22 sy'n nodi bod gan blant sy'n ffoaduriaid yr un hawliau â phlant sy'n cael eu geni yn y wlad y maent yn symud iddi:

*"A child should not have to undergo "scientific methods" because they are seeking asylum when others do not. Children who are traumatised are protected and those seeking asylum should not be treated differently or physically discriminated against because of their circumstances."*⁴⁹

53. Mae'r Comisiynydd Plant yn cyfeirio at Erthygl 2 a hawl plant i beidio â dioddef gwahaniaethu:

*"Beirniadwyd rhai 'dulliau gwyddonol' o asesu am fethu â chydnabod gwahanol ganlyniadau yn ôl amrywiaeth ethnig; neu mae'r canlyniadau'n cael eu seilio ar astudiaethau mewn poblogaethau yn Ewrop/America. Gallai hyn olygu bod rhai plant yn dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn yn anuniongyrchol, ac yn eu rhoi o dan anfantais annheg yn systematig yn ystod y broses o asesu oed."*⁵⁰

54. Dywedodd Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol Cymru nad oedd yn ymwybodol o ymdrech i gynnwys plant a phobl ifanc yn y datblygiad na'r ddeddfwriaeth hon, fel y byddai'n adlewyrchu Erthygl 12 a hawl y plentyn i fynegi ei farn am bob mater sy'n effeithio arno, ac i'r

⁴⁸ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 13 - CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan**

⁴⁹ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 09 - EYST Cymru**

⁵⁰ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 07 - Comisiynydd Plant Cymru**, tudalen 5

safbwyntiau hynny gael eu hystyried nac ymdrech i gynyddu'r hawl hon mewn prosesau neu strwythurau newydd.⁵¹

55. Roedd y rhain ymhlith hawliau eraill y Confensiwn a gododd rhanddeiliaid:

- hawl i hunaniaeth (Erthyglau 1, 7 ac 8);
- parch at urddas a hawl i uniondeb (Erthyglau 3 a 37);
- hawliau i fywyd, goroesi a datblygiad (Erthygl 6);
- hawl i hunaniaeth (Erthyglau 1, 7 ac 8);
- parch at urddas a hawl i uniondeb (Erthyglau 3 a 37);
- a gwella yn sgil trawma ac ailintegreiddio (Erthygl 39).

56. Rhannodd Conffederasiwn GIG Cymru⁵² a Plant yng Nghymru (gyda Grŵp Monitro CCUHP Cymru ac ar ei ran)⁵³ bryderon ei bod yn ymddangos na chynhaliodd Llywodraeth y DU Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Bil. Esboniodd Plant yng Nghymru, er mwyn cydymffurfio â Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gynnal Asesiad cynhwysfawr o'r Effaith ar Hawliau Plant. Fodd bynnag:

"As the UK Government has failed to incorporate the UNCRC into domestic legislation, and as there is no equivalent legislation to that of the Welsh Measure at a Westminster level, ascertaining whether full compliance with the Articles and key principles of the UNCRC, notably non-discrimination (Article 2), best interest (Article 3), protection (Article 19) or participation (Article 12) becomes somewhat more challenging."⁵⁴

57. Wrth grynhoi ei wrthygyferbyniad i'r Bil, ysgrifennodd Plant yng Nghymru (gyda Grŵp Monitro CCUHP ac ar ei ran) y canlynol:

"We would not wish to see any diminution of existing rights and entitlements through any centralisation of the age assessment decision making processes

⁵¹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 05. Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol Cymru](#)

⁵² [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 10 - Conffederasiwn GIG Cymru](#), paragraff 3

⁵³ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 11 - Grŵp Monitro CCUHP Cymru](#)

⁵⁴ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 11 - Grŵp Monitro CCUHP Cymru](#)

*or the use of disputed methods of age assessment practices, which could result in the rights of asylum seeking children, including child victims of trafficking and criminal exploitation, being undermined and the best interest principle compromised."*⁵⁵

Goblygiadau i iechyd meddwl

58. Rhannodd llawer o randdeiliaid bryderon y bydd y Bil yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl grŵp sydd eisoes yn agored i niwed ac y mae ganddynt anghenion cymhleth. Dywedodd Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru y bydd y Bil yn cael effaith andwyol ar iechyd meddwl grŵp o bobl y mae eisoes yn fwy tebygol y byddant yn cael profiad o wahaniaethu ac yn wynebu rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau gofal iechyd meddwl addas mewn modd amserol a phriodol.⁵⁶

59. Tynnodd nifer o randdeiliaid sylw at effaith negyddol bosibl darpariaethau'r Bil ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Tynnodd Comisiynydd Plant Cymru sylw at adroddiad gan Is-adran Hawliau Plant Cyngor Ewrop a ddaeth i'r casgliad y gallai natur fewnwithiol rhai dulliau a ddefnyddir i asesu oedran achosi niwed meddyliol.⁵⁷ Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei bod yn bosibl bod pobl ifanc sydd wedi cael profiad o drawma sylweddol, gan gynnwys tystio i drais a chael profiad ohono, rhieni'n gwahanu, amddifadedd difrifol, camfanteisio ac ati hefyd yn dioddef o broblemau iechyd meddwl a chorfforol.⁵⁸

60. Rhannodd Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru bryderon tebyg a dadleuodd y gall fod angen cymorth iechyd meddwl arbenigol ar blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches:

"Childhood and adolescence are formative periods of development, which determine longer term mental health outcomes. Children and young people with mental health problems, particularly those separated from their families, are vulnerable and require specialist mental health assessment and support. Asylum seeking young people have high rates of self-harm, and there are

⁵⁵ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 11 - Grŵp Monitro CCUHP Cymru**

⁵⁶ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 01 - Coleg Brenhinol y Seiciatryddion**

⁵⁷ Is-adran Hawliau Plant Cyngor Ewrop, '**Age assessment: Council of Europe member states' policies, procedures and practices respectful of children's rights in the context of migration**', Medi 2017

⁵⁸ **Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 06 - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

*already significant concerns regarding the high numbers of suicides in young people seeking asylum."*⁵⁹

61. Roedd nifer o randdeiliaid yn arbennig o bryderus ynghylch y diffyg eglurder am amddiffyn iechyd meddwl a llesiant pobl y ceir anghydfod ynghylch eu hoedran yn ystod y broses asesu oedran. Rhannodd CLILC ac EYST bryderon am yr oedi a ragwelir cyn cynnal yr asesiadau a'r effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant y rhai sy'n aros am asesiad. Yn ei dystiolaeth, dywedodd EYST y canlynol:

*"[...] If the NHS are responsible for aspect of the age assessment then it will impact other services. There are already delays (especially after COVID 19). If the age assessment is in two parts, the interview and the "scientific part" then they may be waiting for the latter for some time. This in turn will create longer waits for asylum decisions, impacting mental health."*⁶⁰

62. Cododd Coleg Brenhinol Seiciatryddion Cymru bryderon diogelu ynghylch trin plant fel oedolion, eu cadw'n gaeth, eu goruchwylio'n amhriodol, neu eu rhoi mewn llety anaddas gydag oedolion.⁶¹ Yn ei chyflwyniad, dywedodd Cymdeithas Feddygol Prydain fod defnyddio llety lloches, gan gynnwys canolfannau llety sefydliadol, yn cael effaith andwyol ar iechyd corfforol a meddyliol a'i fod yn pwysleisio'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael mynediad at ofal iechyd priodol, yn enwedig ar gyfer cyflyrau meddyliol a chorfforol mwy cymhleth. Mae ganddi'r ofn a ganlyn:

*"Increasing the uncertainty under which people who have fled violence and trauma live will only increase their psychological distress, with the potential to create or compound underlying physical conditions linked to chronic stress, anxiety and depression."*⁶²

63. Mae tystiolaeth gan CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan yn pwysleisio'r goblygiadau iechyd meddwl i bobl ifanc dan oed ar eu pen eu hunain sy'n cael asesiad oedran anghywir.

⁵⁹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 01 - Coleg Brenhinol y Seiciatryddion](#)

⁶⁰ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 09 - EYST Cymru](#)

⁶¹ [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 01 - Coleg Brenhinol y Seiciatryddion](#)

⁶² [Tystiolaeth ysgrifenedig, LCM NBB 02 - Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru](#)

Rhan 7 - Darpariaethau cyffredinol

Crynodeb o gymalau

Crynodeb o'r cymalau yn Rhan 7 o'r Bil y mae Llywodraeth Cymru yn credu eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Cymal	Darpariaeth
Cymal 80 (y cyfeirir ato ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru fel cymal 79, fel yr oedd ar y pryd)	Yn darparu y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy reoliadau, wneud darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau dros dro y mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn eu bod yn briodol mewn perthynas â darpariaethau'r Bil hwn yn dod i rym. Mae is-adrannau 2 a 3 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth y mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei bod yn briodol o ganlyniad i'r Bil. Caiff darpariaeth o'r fath ddiwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfiad, gan gynnwys Mesur neu Ddeddf gan y Senedd ac unrhyw offeryn a wneir o dan Fesur neu Ddeddf gan y Senedd.

Safbwynt Llywodraeth y DU

64. Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau yn y Bil. Gweler 'Safbwynt Llywodraeth y DU' mewn perthynas â 'Rhan 4 - Aseidiadau oedran' uchod i gael rhagor o wybodaeth.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

65. Mae Llywodraeth Cymru yn datgan y canlynol yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol:

*"Yn ein barn ni, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y cymal hwn am ei fod yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol."*⁶³

Ein barn ni

A oes angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd

⁶³ Llywodraeth Cymru, 'Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cenedligrwydd a Ffiniau', Rhagfyr 2021, tudalen 7

66. Mae cymalau 48-49 a 51-55 yn rhan 4 o'r Bil yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol. Ar ben hynny, mae cymalau 49, 51, 52 a 55 yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n gosod swyddogaethau ar awdurdodau datganoledig Cymreig. Mae cymal 80 yn rhan 7 o'r Bil (y cyfeirir ato fel cymal 79 ym Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru) yn effeithio ar faes datganoledig gofal cymdeithasol. Felly, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hynny. Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r casgliad hwn.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 48-49, a 51-55 yn rhan 4 a chymal 80 yn rhan 7 o'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau. Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r casgliad hwn.

67. Rydym yn nodi nad yw Llywodraeth y DU yn credu bod angen cydsyniad deddfwriaethol ar gyfer y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau. Fodd bynnag, fel y nodwyd yng Nghasgliad 1 uchod, rydym yn credu *bod* angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Felly, rydym yn pryderu bod Llywodraeth y DU wedi gweithredu heb roi sylw dyledus i adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n datgan na fydd Senedd y Deyrnas Unedig fel arfer yn deddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad y Senedd.⁶⁴ Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r casgliad hwn.

Casgliad 2. Rydym yn pryderu bod Llywodraeth y DU yn gweithredu heb roi sylw dyledus i adran 107(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 drwy ddeddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad y Senedd. Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r casgliad hwn.

Materion polisi

68. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu nodi mewn rheoliadau pa dechnegau asesu oedran gwyddonol y mae'n rhaid eu defnyddio fel rhan o'r broses asesu oedran, felly nid yw'n eglur ar hyn o bryd pa dechnegau penodol fydd yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, yn seiliedig ar wybodaeth yn nodiadau esboniadol Llywodraeth y DU a'r dystiolaeth a gawsom, nid ydym yn cefnogi cyflwyno technegau asesu oedran 'gwyddonol' yng Nghymru. Felly, rydym yn argymhell bod y Senedd yn atal cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau. Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

⁶⁴ Legislation.gov.uk, 'Government of Wales Act 2006'

Argymhelliad 1. Dylai'r Senedd atal cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau. Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

69. Ar adeg ysgrifennu hyn, mae'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd ychydig o gyfleoedd eraill i Lywodraeth Cymru ofyn am newidiadau i'r Bil i adlewyrchu pryderon y Pwyllgor hwn a/neu'r Senedd yn ehangach. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn gallu cymryd camau i geisio dylanwadu ar reoliadau y mae Llywodraeth y DU yn eu gwneud yn y dyfodol drwy ddefnyddio pwerau a nodir yn y Bil - yn benodol mewn perthynas ag asesu oedran ceiswyr lloches y ceir anghydfod ynghylch eu hoedran. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i wneud yr hyn y gall ei wneud i bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau na chaiff technegau asesu oedran gwyddonol eu cyflwyno yng Nghymru. Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru bwysu ar Lywodraeth y DU i sicrhau na chaiff technegau asesu oedran gwyddonol eu cyflwyno yng Nghymru. Nid yw Laura Jones AS na James Evans AS yn cytuno â'r argymhelliad hwn.

70. Fel y mae'r casgliadau a'r argymhellion uchod yn dangos, mae gan y Pwyllgor safbwyntiau gwahanol. Fodd bynnag, rydym yn unedig yn ein barn bod yn rhaid i hawliau plant fod wrth wraidd unrhyw ddull o asesu oedran ceiswyr lloches neu ymfudwyr.

Casgliad 3. Mae'n rhaid i hawliau plant fod wrth wraidd unrhyw ddull a fabwysiedir o asesu oedran ceiswyr lloches neu ymfudwyr.

Atodiad A: Sefydliadau a roddodd dystiolaeth ysgrifenedig

Cyfeirnod	Sefydliad
LCM NBB 01	Coleg Brenhinol y Seiciatryddion
LCM NBB 02	Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru
LCM NBB 03	Coleg Brenhinol y Meddygon
LCM NBB 04	Rhwydwaith Maethu Cymru
LCM NBB 05	Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol Cymru
LCM NBB 06	Iechyd Cyhoeddus Cymru
LCM NBB 07	Comisiynydd Plant Cymru
LCM NBB 08	Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
LCM NBB 09	EYST Cymru
LCM NBB 10	Confederasiwn GIG Cymru
LCM NBB 11	Grŵp Monitro CCUHP
LCM NBB 12	Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
LCM NBB 13	CLILC, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Grŵp Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan